

---

# Adolygiad o reolau cystadleuaeth yn y Cod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG)

Datganiad

---

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Tachwedd 2020

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniad i gadw rheolau cystadleuaeth ar ddarparwyr cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPG) er mwyn parhau i gefnogi cystadleuaeth deg ac effeithiol.**

Mae cyfeiryddion teledu ar y sgrin, neu EPGs, yn galluogi gwylwyr i ddod o hyd i raglenni teledu a'u dewis ar deledu sy'n cael ei ddarlledu, sef teledu 'llinol'. Mae ein Cod EPG yn pennu rheolau ar gyfer darparwyr EPG, gan gynnwys rheolau i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

Cyflwynodd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ofyniad i ni adolygu'r Cod EPG cyn 1 Rhagfyr 2020. Gwnaethom gyhoeddi casgliadau dros dro o'n hadolygiad ym mis Awst 2020. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno casgliadau terfynol ein hadolygiad.

## Ein penderfyniad – yn gryno

**Mae teledu llinol yn dal i gael ei wyllo a'i werthfawrogi'n eang, ac mae EPGs yn ffordd bwysig o gael gafael ar y cynnwys hwn.** Mae ein dull o ymgysylltu â'r cyfryngau wedi newid yn aruthrol ers cyhoeddi'r Cod EPG yn 2004. Mae mwy a mwy o bobl yn mynd ar-lein i gael mynediad at amrywiaeth o gynnwys, a chreu eu cynnwys eu hunain. Er hynny, mae teledu llinol yn dal i gael ei wyllo ac mae EPGs yn ffordd bwysig o ddod o hyd i raglenni teledu.

**Mae angen rheolau cystadleuaeth o hyd.** Yn ein barn ni, mae angen i'r rheolau cystadleuaeth hyn fod ar waith o hyd ar gyfer darparwyr EPG trwyddedig er mwyn ymgysylltu â darparwyr sianeli ar delerau teg a rhesymol nad ydynt yn gwahaniaethu. Diben hyn yw sicrhau nad yw trwyddedeion yn ymrwymo neu'n cynnal trefniadau neu'n cymryd rhan mewn arferion a fyddai, yn ein tyb ni, yn dwyn rhagfarn yn erbyn cystadleuaeth deg ac effeithiol. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno â'n canfyddiadau dros dro sef bod angen y rheolau cystadleuaeth hyn o hyd. Credwn ei bod yn fwy priodol cael y rheolau hyn yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ein pwerau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998.

**Mae'r rheolau presennol yn gweithio'n dda.** Rydym wedi dod i'r casgliad bod mân ddiwygiadau i'r rheolau presennol yn briodol, ac mae rhanddeiliaid yn cefnogi hyn ar y cyfan. Yn ogystal, rydym nawr yn mynnu bod ymgynghoriadau gan ddarparwyr EPG yn dilyn proses dryloyw ac yn cynnwys amserlenni rhesymol er mwyn i ddarparwyr sianeli gyflwyno sylwadau ac er mwyn iddynt allu newid unrhyw restrau. Daw ein penderfyniadau i rym ar unwaith.